**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS,
Cadeirydd
Pwyllgor y Llywydd
Senedd Cymru

seneddLLC@Senedd.Cymru

14 Chwefror 2023

Annwyl David,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 7 Chwefror ataf i a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, ynghylch amcangyfrif ariannol atodol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2022-23 o ran ei waith ar etholiadau datganoledig Cymru. Rwy'n ymateb gan mai fi yw'r Gweinidog sydd â'r cyfrifoldeb dros etholiadau, ond rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol oherwydd ei diddordeb mewn gwariant sy'n dod allan o Gronfa Gyfunol Cymru, a hefyd ei diddordeb yng ngwaith yr awdurdodau lleol o ran gweinyddu etholiadau.

Gallaf gadarnhau bod y gweithgareddau a ddisgrifiwyd gan y Comisiwn Etholiadol yn yr amcangyfrif yn cyd-fynd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ynghylch yr hyn a oedd yn ofynnol yn ystod y cyfnod dan sylw, ac mae'n fforddiadwy o fewn y cyllid a drosglwyddwyd o Drysorlys Ei Fawrhydi. Mae wedi bod o gymorth bod y Comisiwn wedi rhoi sicrwydd bod mesurau wedi cael eu gweithredu i atal pwysau, megis y rheini sy'n ymwneud â'r cyllid ychwanegol a geisir ar gyfer costau sy'n gysylltiedig ag ymgyrchoedd yn y dyfodol, a hefyd bod rhagdybiaethau realistig ynghylch taliadau wedi eu cynnwys yn yr amcangyfrif ar gyfer 23-24.

Yn amodol ar y Senedd yn cytuno ar y cynnig ar gyfer cyllideb atodol ac adroddiad ffurfiol y Comisiwn, bydd fy swyddogion yn gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i gytuno ar gynllun taliadau ar gyfer y swm atodol.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.